## YR ATODLEN

### Rhan I

### Twmpath Arafu Estynedig â Brig Gwastad

Wedi'i ganoli mewn lleoliad ar hyd ffordd y B4459 ym Mhencader 45 metr i'r gogledd o'i chyffordd â Ffordd Glanawmor.

Bydd y twmpath ffordd newydd arfaethedig yn ymestyn ar draws lled llawn y ffordd gerbydau a bydd ar ffurf twmpath arafu estynedig â brig gwastad. Bydd y twmpath yn mesur o leiaf 6000 milimetr (6 metr) o hyd, a 75 milimetr o uchder yn unol â'r amrywiadau a ganiateir yn y Rheoliadau (lle na fydd twmpath yn fwy na 100 milimetr o uchder).

### Rhan II

### Twmpath Ffordd Taprog â Brig Crwn

Wedi'i ganoli mewn lleoliad ar hyd ffordd y B4459 ym Mhencader 45 metr i'r de o'i chyffordd â Ffordd Glanawmor.

Bydd y twmpath ffordd newydd arfaethedig yn dwmpath brig crwn wedi'i dapro, hynny yw na fydd yn mynd o un ochr y cwrbyn i'r llall yn gyfan gwbl. Bydd y brig crwm yn mesur o leiaf 3700 milimetr (3.7 metr) o hyd, a 75 milimetr o uchder yn unol â'r amrywiadau a ganiateir yn y Rheoliadau (lle na fydd twmpath yn fwy na 100 milimetr o uchder).